Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 5 Tachwedd 2009

Teitl: Prifysgolion yn ceisio cynyddu rhoddion

Mae prifysgolion Cymru wedi cael cymhelliad gwerth £10 miliwn i gynyddu eu gallu i godi arian.

O dan y cynllun arian cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol, bydd CCAUC yn darparu arian ychwanegol – cyfatebol – ar gyfer rhoddion y mae sefydliadau addysg uwch (AU) yn eu derbyn gan gyrff ac unigolion, gan gynnwys cynfyfyrwyr.

Cafodd y cynllun ei lansio'n swyddogol mewn digwyddiad yng Nghaerdydd heddiw gan Jane Hutt, AC, Gweinidog Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn y digwyddiad – a arweiniwyd gan CASE (Ewrop), corff rhyngwladol sy'n cefnogi codwyr arian addysgol, cysylltiadau â chynfyfyrwyr, a staff proffesiynol ym meysydd marchnata a chyfathrebu – daeth staff cyllid, datblygu a chodi arian o sefydliadau AU Cymreig at ei gilydd i rannu profiadau ac arferion gorau a thrafod sut orau i godi arian yn fwy effeithiol gan gynfyfyrwyr, unigolion a chorfforaethau.

Bydd y cynllun yn cwmpasu rhoddion ar ffurf arian a chyfranddaliadau, rhoddion gan ymddiriedolaethau ac elusennau, a rhoddion eraill, a'r nod yw creu meddylfryd o roi i addysg dros y tymor hir.

Bydd yn caniatáu i brifysgolion ddefnyddio cyllid ychwanegol ar weithgareddau a fydd o fudd iddynt hwy a'u myfyrwyr, megis cyfleusterau astudio a llyfrgell newydd, prosiectau adeiladu, rhaglenni ymchwil, a bwrsarïau ac ysgoloriaethau i fyfyrwyr.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Dyma gam mawr ymlaen yn y ffordd mae prifysgolion yng Nghymru yn codi arian.

"Wrth i'r pwrs cyhoeddus gael ei dynhau yn yr hinsawdd economaidd bresennol bydd angen i sefydliadau addysg uwch geisio arian o amrywiaeth ehangach o ffynonellau. Pwrpas y cynllun cyllido cyfatebol yw annog prifysgolion i gynyddu rhoddion gan gyrff ac unigolion, gan gynnwys cynfyfyrwyr.

"Gall y camau cychwynnol, ni waeth pa mor fach, gael eu trosi'n enillion ariannol mawr i sefydliadau dros gyfnod o amser, ac rydym yn awyddus i ddangos sut y gall sefydliadau weithio'n well i feithrin cysylltiadau tymor hir gyda darpar gymwynaswyr."

Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Y cynllun arian cyfatebol

Bydd Jane Hutt, AC, Gweinidog Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn siarad yn y gweithdy ac yn ystyried beth mae'r cynllun newydd yn ei olygu i Gymru.

Sefydlodd CCAUC gynllun i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer rhoddion gwirfoddol a dderbynnir gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Bydd y Cynllun yn annog prifysgolion yng Nghymru i gynyddu ac ehangu eu gallu codi arian ac yn rhoi cymhelliad i gynfyfyrwyr ac unigolion eraill wneud rhoddion gwirfoddol drwy warantu y bydd y llywodraeth yn darparu arian cyfatebol.

Mae'n seiliedig ar gynllun tebyg a weithredir yn Lloegr gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULl), wedi'i addasu i adlewyrchu maint llai ac amgylchiadau'r sector addysg uwch yng Nghymru, a'r nod yw creu meddylfryd o roi i addysg dros y tymor hir ac, yn benodol, cynyddu rhoddion i brifysgolion dros gyfnod o dair blynedd.

Mae CCAUC wedi rhoi cyllid o'r neilltu o'i Gronfa Datblygu Strategol am gyfnod o dair blynedd o 2009/10, sef symiau o £1.5 miliwn, £3.5 miliwn a £5 miliwn. Bydd peth o'r cyllid hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer adeiladu gallu ac ar gyfer gweithgareddau datblygu.

Cylchlythyr CCAUC sy'n cyhoeddi'r cynllun

Beth sy'n gymwys

Mae'r mathau canlynol o roi yn gymwys ar gyfer arian cyfatebol:

- rhoddion ar ffurf arian parod
- rhoddion ar ffurf cyfranddaliadau, gyda'u gwerth arian parod wedi'i bennu ar werth y cyfranddaliadau ar y dyddiad y rhoddir hwy
- rhoddion gan ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol bach/canolig sy'n rhoi llai na £60 miliwn y flwyddyn
- rhoddion drwy ymddiriedolaethau datblygu anghyfunol y sefydliadau addysg uwch (SAUau) eu hunain
- rhoddion corfforaethol, os ydynt yn gyson â'r categorïau uchod
- rhoddion tramor, os ydynt yn gyson â'r categorïau uchod
- Rhodd Cymorth

Sut i roi

Cysylltwch â'r tîm codi arian, cynfyfyrwyr neu ddatblygu yn y sefydliad Cymreig yr ydych am roi iddo. Mae cysylltau i wefannau'r sefydliadau ar gael yn: http://www.hefcw.ac.uk/about_he_in_wales/higher_education_institutions/he_institutions.aspx

CASE Ewrop

Gyda'i bencadlys yn Washington, DC a swyddfeydd yn Llundain a Singapore, mae'r Cyngor dros Hyrwyddo a Chefnogi Addysg (Council for Advancement and Support of Education (CASE)) yn un o'r cymdeithasau mwyaf o sefydliadau addysg, gan wasanaethu dros 3,300 o brifysgolion, colegau ac ysgolion cynradd ac uwchradd annibynnol mewn 64 o wledydd. CASE yw'r adnodd arweiniol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gwybodaeth a safonau ym meysydd codi arian addysgol, cyfathrebiadau, marchnata a chysylltiadau â chynfyfyrwyr. Mae CASE Ewrop wedi gwasanaethu aelodau yn y DU a gweddill Ewrop ers 1994.

Rhoddodd CCAULl grant i CASE Ewrop i roi ar waith raglen o hyfforddiant a chymorth pwrpasol ar gyfer 153 o sefydliadau addysg uwch yn Lloegr sy'n cymryd rhan yn y cynllun Arian Cyfatebol ar gyfer rhoi gwirfoddol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.case.org/matchedfunding.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.